Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 18.11.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## DIGWYDDIAD: Peidiwch a cholli cyfle! Gweminar Arbed Ynni, Arbed Arian, 22 Tachwedd 2022

Busnes@gwynedd.llyw.cymru – bydd gweminar yn cael ei gynnal ar 22 Tachwedd 2022 sy'n cynnig cyngor ymarferol i fusnesau i leihau eu defnydd ynni a'r costau cysylltiedig ac yn darparu cyngor ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael yn ehangach i wneud hynny. Archebwch nawr i osgoi siom – am ragor o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3T6OAZX

## YMGYRCH: Wythnos Hinsawdd Cymru 2022

Bydd Wythnos Hinsawdd Cymru 2022 eleni yn digwydd o 21 i 25 Tachwedd, ac mae'n gyfuniad o ddigwyddiadau rhithiol ac wyneb yn wyneb, wedi'u trefnu i rannu arfer gorau a chefnogi ymrwymiad parhaus Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae gwybodaeth pellach, pecyn gwybodaeth rhanddeiliaid a gwybodaeth am yr Addewid Twf Gwyrdd ar gael ar:

http://bit.ly/3EafBpQ

Mae Academi Ddigidol Werdd Busnes@LlandrilloMenai yn darparu cymorth ymgynghori am ddim gan fentor arbenigol i helpu busnesau lleol i leihau eu hôl troed carbon a manteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gllm.ac.uk/cy/busnes/projects/green-digital-academy

## IECHYD A DIOGELWCH: Cadwch yn ddiogel yn y gwaith wrth i fisoedd y gaeaf gyrraedd

Gyda thymheredd is a llai o olau dydd, mae damweiniau trwy lithro neu faglu yn y gwaith yn debygol o ddigwydd yn amlach yn ystod y misoedd nesaf. Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar lithro a baglu yn darparu gwybodaeth ac adnoddau ar sut i osgoi'r damweiniau hyn yn y gweithle, ewch i:

https://www.hse.gov.uk/slips/index.htm
https://www.hse.gov.uk/logistics/slips-trips-bad-weather.htm

## ARIANNU: Cronfa Benthyciadau Canol Tref Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu benthyciadau di-log i helpu i uwchraddio adeiladau canol tref – gellir defnyddio'r benthyciad i wella'r eiddo ar gyfer perchnogaeth barhaol, i'w werthu, i'w osod, neu i wneud defnydd o safle gwag. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/CronfaCanolTref

Un busnes yng Ngwynedd sydd wedi elwa o'r Gronfa yw Harlech House, Harlech, mae eu stori ar gael ar:

http://bit.ly/3TKpyQv

## POB LWC: C'mon Cymru!

Ein dymuniadau gorau i dîm Dynion Cymru wrth i Gwpan y Byd FIFA ddechrau ddydd Sadwrn ac i'n holl fusnesau lleol sy'n trefnu digwyddiadau yn ystod y gystadleuaeth, rhai yn gwneud hynny fel rhan o Ŵyl Cymru, manylion y rhain i'w cael ar:

https://www.gwyl.cymru/cy/

I gael pecyn cymorth o asedau digidol Gŵyl Cymru, ewch i:

https://www.gwyl.cymru/en/digitaltoolkit/gwyl-cymru/

Rhaid codi het i fusnes lleol Spirit of '58 (SO58) o'r Bala, ffynhonnell hetiau bwced eiconig sydd yn cael eu gwisgo gan aelodau o'r Wal Goch wrth iddynt ganu 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan o label recordiau Sain yn Llandwrog!

Cofiwch dagio #PrynuLleol wrth i chi roi cyhoeddusrwydd i'ch busnes yn ystod y gystadleuaeth.

## RHEOLIADAU: Cynllun trwyddedu statudol i bob llety ymwelwyr yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu cynllun trwyddedu statudol i bob llety i ymwelwyr gyda'r nod o sefydlu chwarae teg i bob busnes llety ymwelwyr sy'n gweithredu yn y sector, a sicrhau bod safon gyson y dylai pob gweithredydd ei bodloni. Mae'r datganiad llafar llawn gan y Gweinidog Economi i'w weld ar:

https://llyw.cymru/datganiad-llafar-cynllun-trwyddedu-statudol-i-bob-llety-ymwelwyr-yng-nghymru

## DIGIDOL: Arhoswch ar y blaen gyda digidol

Yng ngofod ar-lein cystadleuol y presennol, mae angen i fusnesau sefyll allan o'r dorf. Mae gan Cyflymu Cymru i Fusnesau gweminarau rhad ac am ddim Marchnata Digidol, SEO, Cyfryngau Cymdeithasol a rhagor i'ch helpu i gystadlu ar draws platfformau digidol. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru